

Cyfarfod Cyngor Partneriaeth Cymru
10.30-12.00pm, Dydd Iau 1 Chwefror 2018
Ystafelloedd Seminar 1 a 2, Adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd

Cofnodion

Yn bresennol

Aelodau

Alun Davies AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
Y Cyngh Debbie Wilcox – Cyngor Dinas Casnewydd
Y Cyngh John W Thomas – Bro Morgannwg
Y Cyngh Huw Thomas – Cyngor Dinas Caerdydd
Y Cyngh Ieuan Williams – Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyngh Ellen ap Gwynn – Cyngor Sir Ceredigion
Y Cyngh Mair Stephens – Cyngor Sir Gaerfyrddin
Y Gwir Anrh Alun Michael – Cynrychiolydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau
Y Cyngh Tudor Davies – Cynrychiolydd Awdurdodau Tân ac Achub
Y Cyngh Mike Cuddy – Cynrychiolydd Cynghorau Cymuned
Marcus Longley – Cynrychiolydd Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru a Byrddau Iechyd Lleol

Arsylwyr

Steve Thomas – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Peter Davies – Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Anna Nicholl – Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Lyn Cadwallader – Un Llais Cymru
Jane Holownia – Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddogion Llywodraeth Cymru

Reg Kilpatrick
Claire Bennett
Maureen Howell
Amelia John
Debra Carter
Rob Hay
Claire Germain
Aaron Fortt
John Davies
Jason Plange

Ymddiheuriadau

Melanie Doel – Cynrychiolydd Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
Y Cyngh Glynog Davies – Cynrychiolydd Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
Y Cyngh Aaron Shotton – Cyngor Sir y Fflint
Y Cyngh Rob Stewart – Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Martin Mansfield – Cyngres yr Undebau Llafur (TUC) Cymru
Y Cyngh Andrew Morgan – Rhondda Cynon Taf

Pwyntiau Gweithredu

1. Anfon unrhyw ychwanegiadau arfaethedig pellach at Flaenraglen Waith y Cyngor Partneriaeth i ysgrifenyddiaeth y Cyngor Partneriaeth. **(Paragraff 1.3).**
2. Llywodraeth Leol i sicrhau bod y broses o gadarnhau a gweithredu cynnwys y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth o ran dileu ffioedd claddu plant ledled Cymru yn cael ei chwblhau. **(Paragraff 1.5).**
3. Llywodraeth Leol i ystyried sut y gallai ymgysylltu'n well â Llywodraeth Cymru ar faterion mawr sy'n berthnasol iddi. **(Paragraff 2.18).**
4. Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd De Cymru i wneud trefniadau i weithio'n agosach gyda chynghorau cymuned a thref. **(Paragraff 3.10).**
5. Llywodraeth Leol i ymateb i bapur CGGC, a fydd yn arwain at drafodaethau yn y dyfodol. Peter Davies i gael trafodaethau pellach ar y materion a godwyd pan fydd yn cyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet ar 28 Chwefror. CGGC ac Un Llais Cymru i gael cyfarfod i drafod pensaernïaeth gyffredin. **(Paragraff 4.5).**

1. Croeso a Sylwadau Agoriadol

- 1.1. Agorodd Ysgrifennydd y Cabinet y cyfarfod drwy groesawu'r holl aelodau i'w gyfarfod Cyngor Partneriaeth Cymru cyntaf.
- 1.2. Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda phob aelod o'r Cyngor Partneriaeth ac y byddai'n canolbwyntio ar ddulliau cyflenwi ymarferol a sut y byddai cydweithio yn galluogi'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu i fod yn fwy gwydn a ffynnu. Aeth ymlaen i ddweud ei fod yn credu mewn llywodraeth leol a'i gallu i wella bywydau pobl er gwell.
- 1.3. Yna, trodd Ysgrifennydd y Cabinet ei sylw at fusnes y diwrnod, ac esboniodd yn gyntaf fod cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 20 Gorffennaf wedi cael eu cymeradwyo dros e-bost. Yna, nododd fod y Flaenraglen Waith wedi cael ei chynnwys yn y papur ar gyfer y cyfarfod ac y gallai aelodau roi gwybod i ysgrifenyddiaeth y Cyngor Partneriaeth yn uniongyrchol os oeddent am ychwanegu unrhyw eitemau ati. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Cynllun Llywodraeth Leol newydd wedi cael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 27 Hydref 2017, a diolchodd i'r aelodau am eu cymorth wrth baratoi'r adroddiad terfynol. Esboniodd hefyd fod papur diweddar sy'n rhoi adroddiad hanner ffordd ar y Cynllun Buddsoddi 10 mlynedd yn Seilwaith Cymru, wedi cael ei ddarparu fel papur i'w nodi.
- 1.4. Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet wybod i'r aelodau bod trafodaethau ar gyllid cyfalaf wedi dod i ben a bod CLILC wedi cytuno ar gynllun adnewyddu ffyrdd hyd at £30m. Nodwyd bod yr Is-grŵp Cyllid wedi cael cyfarfod defnyddiol iawn ers cyfarfod diwethaf y Cyngor Partneriaeth ac y byddai £75m ychwanegol yn cael ei fuddsoddi dros y tair blynedd nesaf er mwyn cyflymu'r dasg o gyflawni'r Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif. Bydd £30 miliwn yn cael ei fuddsoddi'n uniongyrchol eleni. Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod materion eraill yn ymwneud â chyfalaf wedi cael sylw neu'n cael sylw ar hyn o bryd.

- 1.5. Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet i gynrychiolwyr llywodraeth leol am eu harweiniad mewn perthynas â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar ffioedd claddu plant, gan nodi bod hynny'n gam pwysig ymlaen. Esboniodd ei fod yn ymwybodol bod llawer o awdurdodau lleol wrthi'n cadarnhau ac yn gweithredu ar gynnwys y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, ond ei fod yn dibynnu ar aelodau'r Cyngor Partneriaeth i helpu i sicrhau bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cael ei roi ar waith ledled Cymru ar unwaith. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'n adolygu cynnydd ym mis Gorffennaf ac wedyn ar ôl tua blwyddyn er mwyn sicrhau bod y cytundeb yn foddhaol i bawb.

Materion sy'n Codi

2. Diwygio Llywodraeth Leol

- 2.1 Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet a oedd yr aelodau am godi unrhyw faterion eraill, cyn rhoi sylw i'r eitemau o bwys ar agenda'r cyfarfod.
- 2.2 Diolchodd y Cyngw Wilcox i Ysgrifennydd y Cabinet am ei sylwadau agoriadol, ond dywedodd ei bod yn synnu nad oedd eitem ar Ddiwygio Llywodraeth Leol ar yr agenda. Esboniodd y Cyngw Wilcox fod cynghorau yn hollol ymwybodol o'r trafodaethau a gafwyd yn ddiweddar ar y mater penodol hwn a'i bod fel petai'r sefyllfa wedi newid. Nododd y Cyngw Wilcox yr ymrwymiad blaenorol i beidio â gwneud newidiadau strwythur i lywodraeth leol am gyfnod o 10 mlynedd, ac y byddai felly yn croesawu trafodaeth i sicrhau eglurder ar y mater hwn.
- 2.3 Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd cyfarfod yn cael ei gynnal yn ddiweddarach heddiw i drafod y mater hwn ac y bydd yn canolbwyntio ar y Bil Llywodraeth Leol arfaethedig. Esboniodd fod y cyfnod o 10 mlynedd yn amodol ar lywodraeth leol yn cytuno i weithio rhanbarthol gorfodol. Fel y dywedodd, coma ac nid atalnod llawn oedd ar ôl yr ymrwymiad. O ystyried nad oedd llywodraeth leol bellach o blaid gweithio rhanbarthol gorfodol, roedd angen gweithio tuat at broses wahanol.
- 2.4 Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod wedi etifeddu'r Bil a'i fod yn teimlo bod angen i'r drafodaeth ar ddiwygio llywodraeth leol ddod i gasgliad. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod llywodraeth leol, ar ôl cyfarfod mis Tachwedd, wedi dweud wrtho nad oedd ei sefyllfa ariannol yn gynaliadwy yn y dyfodol (er ei bod yn well na sefyllfa ariannol Lloegr). Nododd nad yw gwario mwy ynddo'i hun yn cyflenwi gwasanaethau cynaliadwy hirdymor. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn awyddus i ddod i gonsensws a chytuno ar y ffordd ymlaen, ond nid oedd dweud 'na' i bob opsiwn yn gynaliadwy. Rhaid i bethau newid, a byddai unrhyw un sy'n troi ei gefn ar y drafodaeth yn colli ei gyfle i lywio'r newid hwnnw.
- 2.5 Dywedodd y Cyngw Mike Cuddy ei fod yn gobeithio na fyddai'r datblygiadau diweddaraf hyn yn effeithio'n ormodol ar yr adolygiad sy'n mynd rhagddo o gynghorau cymuned thref.
- 2.6 Nododd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn gwerthfawrogi rôl cynghorau cymuned thref ac y byddai am iddynt chwarae rôl fwy. Aeth ymlaen i ddweud y dylai unrhyw strwythurau sydd ar waith gael eu datblygu, eu hatgyfnerthu a'u gwerthfawrogi. Nododd ei fod wedi cyfarfod

â'r Panel Adolygu ac wedi gofyn am gyflwyno unrhyw gynigion ar gyfer newid yr oedd angen deddfu arnynt yn gynnar er mwyn iddynt allu cael eu hystyried wrth baratoi'r Bil, wrth i bethau symud yn eu blaen.

- 2.7 Tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet sylw at y gwahoddiad i awgrymu mwy o hyblygrwydd, a nododd y bydd pob ymateb i'r ymarfer yn cael ei gyhoeddi. Aeth Ysgrifennydd y Cabinet ymlaen i ddweud mai un o'i brif amcanion oedd grymuso llywodraeth leol a'i fod am i'r rhai sy'n cyflenwi gwasanaethau gael mwy o bŵer er mwyn iddynt allu arwain newid yn eu cymunedau. Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd yn ystyried hyn yn gadarnhaol ac yn monitro'r dull gweithredu er mwyn rhoi mwy o bŵer i'r ganolfan ddinesig.
- 2.8 Mynegodd y Cyngh leuan Williams ei bryderon ynghylch diwygio o'r brig i lawr, gan ddweud y dylid gadael i gynghorau gyflenwi; roedd hefyd yn awyddus i bwysleisio'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod caled hwn. Roedd yn siomedig iawn gyda'r cynigion i wneud newidiadau pellach, gan ei fod yn teimlo bod cynghorau'n llwyddo gyda llai o arian.
- 2.9 Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod wedi gweld gwaith da yn cael ei wneud ledled Cymru ond bod y toriadau yn herio gwasanaethau ac nad oedd yn bosibl dadlau nad oedd angen newid. Ni allai gwneud dim fod yn ymateb.
- 2.10 Cododd y Cyngh Ellen ap Gwynn y toriadau i gyllid, a phwysleisiodd eu bod yn gweithio'n rhanbarthol. Nododd hefyd y cyferbyniad rhwng iechyd a llywodraeth leol yn nhermau'r gallu i reoli o fewn y gyllideb sydd ar gael.
- 2.11 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet nad oedd yn dweud bod awdurdodau lleol yn cyflenwi gwasanaethau gwael, ond ei fod yn ymwybodol bod gwasanaethau yng Ngheredigion, yn debyg i bob man arall yng Nghymru, yn dioddef oherwydd y cyfyngiadau ariannol. Roedd effaith pwysau ariannol ar wasanaethau yn fater roedd pobl yn ei godi gydag ef yn gyson. Y cynnig blaenorol oedd gwneud gweithio'n rhanbarthol yn orfodol, ond nid oedd eisiau hynny. Nid yw'n bosibl dweud nad oes angen newid, a bydd newid yn digwydd.
- 2.12 Cytunodd Alun Michael fod gweithio mewn partneriaeth o safbwynt yr heddlu yn bwysig. Esboniodd fod Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a Phrif Gwnstabiaid yn teimlo fel petaent yn gwyllo'r drafodaeth hon, er eu bod yn bartneriaid allweddol. Croesawodd ddatganiad Ysgrifennydd y Cabinet ar ddiogelwch cymunedol, a nododd y cysylltiadau â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Nododd fod patrymau gwahanol at ddibenion gwahanol yn her, gan ddweud bod angen gweithio mewn partneriaeth yn fwy a chael llai o gyfarfodydd. Dywedodd hefyd fod angen cydlynu cymaint ag sy'n ymarferol bosibl ac y dylai dull gweithredu Llywodraeth fod mor syml ag sy'n ymarferol bosibl. Croesawodd yr ymgynghoriad ar drosglwyddo gwasanaethau gofal iechyd i bobl yn ardal Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, gan ddweud ei fod yn gryf o blaid hynny. Roedd pawb yn awyddus i ddatrys y mater yn gyflym fel y gallai partneriaid, yn ogystal a'r ddau Fwrdd Iechyd, fynd i'r afael â goblygiadau cynllunio ac ariannol. Gofynnodd Alun Michael i'r Ysgrifennydd Cabinet geisio am benderfyniad cynnar - yn bennaf roedd cefnogaeth i'r newid arfaethedig ac ni fyddai cyfnod hir o drafodaeth bellach yn ddefnyddiol.

- 2.13 Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod o blaid trefniadau syml, cadarn. Roedd atebolrwydd yn hollbwysig, ac roedd y ffordd rydym yn trefnu ein hunain yn hanfodol. Aeth ymlaen i ddweud ei fod am i lywodraeth leol fod yn arweinydd gwleidyddol yn ei maes, gyda'r awdurdod i ddweud beth sydd orau ar gyfer ei hardal a chael ei hawdurdodi i gyflawni a'i dwyn i gyfrif yn lleol.
- 2.14 Croesawodd y Cyngh Wilcox ddatganiad cryf Ysgrifennydd y Cabinet ar y mater hwn. Dywedodd ei bod ar gofnod fel rhywun nad oedd yn cefnogi'r 22 o gynghorau, a'i bod yn awyddus i drafod hyn.
- 2.15 Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet addo treulio cymaint o amser â phosibl yn cwrdd â phobl. Esboniodd hefyd ei fod am symud ymlaen gyda gweledigaeth y cytunwyd arni ar y cyd. Dywedodd nad oedd unrhyw un wedi dadlau dros gael 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Roedd am fwrw ymlaen â'r egwyddor o gydsynio, ond bydd Bil sy'n cynnwys pwerau ychwanegol, yn ogystal â chynigion ar gyfer newid.
- 2.16 Cododd y Cyngh Huw Thomas y mater sy'n codi'n barhaus yn ymwneud ag ariannu gweithgareddau a oedd yn cael eu hariannu'n flaenorol drwy elfen Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig y Grant Gwella Addysg. Nododd fod llywodraeth leol o'r farn nad oedd y cynnig presennol o £5 miliwn yn dderbyniol. Roedd llywodraeth leol yn teimlo bod sail gref dros gynnal adolygiad barnwrol. Roedd y camau cyfreithiol a oedd yn cael eu hystyried yn ymwneud â'r broses yn hytrach na'r penderfyniad. Nid oedd hyn yn ddelfrydol, ac roedd yn cael ei ystyried fel cam olaf.
- 2.17 Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn gobeithio y gellid dod o hyd i ateb a fyddai'n osgoi'r angen i ddwyn achos cyfreithiol. Roedd yn awyddus i ddod o hyd i ateb dros dro nawr a fyddai'n caniatáu amser i ddatrys y mater hwn yn y tymor hwy. Nododd mai'r Prif Weinidog oedd yn gyfrifol am ddatrys hyn.
- 2.18 Ar gyfer y dyfodol, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet ofyn i lywodraeth leol awgrymu ffyrdd y gellid gwella llinellau cyfathrebu anffurfiol er mwyn i ni geisio datrys problem sydd ar y gorwel cyn iddi droi'n fater mwy difrifol.

3. Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd De Cymru

- 3.1 Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd wedi cael ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2016 ar ôl etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a refferendwm yr UE mewn ymateb i'r ymrwymiad ym manifesto Llafur Cymru.
- 3.2 Aeth ymlaen i esbonio bod y Tasglu wedi cael ei sefydlu i adeiladu ar gryfderau ac asedau cymunedau'r cymoedd er mwyn datblygu dull newydd o fuddsoddi yn nyfodol yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn economaidd yng nghymoedd De Cymru, gan sicrhau bod pob unigolyn yn cael cyfle i gyflawni ei potensial. Diben y Tasglu oedd llywio a dylanwadu ar adnoddau Llywodraeth Cymru er mwyn ymdrin â'r problemau sy'n wynebu'r cymoedd. Yna, gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet i Maureen Howell gyflwyno'r papur.

- 3.3 Esboniodd Maureen fod Ein Cymoedd, Ein Dyfodol, sef y cynllun lefel uchel ar gyfer y cymoedd, wedi cael ei lansio ar 20 Gorffennaf 2017. Esboniodd Maureen fod y cynllun yn amlinellu tair blaenoriaeth: swyddi o ansawdd da a'r sgiliau cywir i'w cyflawni; gwasanaethau cyhoeddus gwell; a chymunedau lleol. Cafodd y cynllun ei ddatblygu ar ôl i adborth ddod i law gan bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cymoedd, ac roedd yn nodi amrywiaeth o nodau a champau gweithredu ar gyfer pob un o'r tri maes blaenoriaeth.
- 3.4 Yna, aeth Maureen â'r aelodau drwy'r papur yn fras, gan esbonio'r camau nesaf ac amlinellu'r camau gweithredu a fyddai'n cael eu cymryd. Esboniodd Maureen y byddai cynllun ymgysylltu yn cael ei gyhoeddi yn y misoedd i ddod a fyddai'n nodi sut y bydd y Tasglu yn ymgysylltu â phobl mewn cymunedau yng nghymoedd De Cymru ac yn eu grymuso er mwyn sicrhau bod y cynlluniau hyn yn diwallu anghenion pobl ac yn cyrraedd eu disgwyliadau. Yna, croesawodd Maureen sylwadau gan yr aelodau.
- 3.5 Gofynnodd y Cyngh Ellen ap Gwynn pryd fyddai rhywbeth tebyg i'r Tasglu ar gyfer y Cymoedd yn cael ei gyflwyno ar gyfer cymunedau gwledig. Esboniodd y Cyngh ap Gwynn fod yr economi yng Nghymru wledig wedi gwanhau dros y blynyddoedd a bod pobl ifanc yn ardaloedd De Gwynedd, Ceredigion a Phowys wedi symud ymaith er mwyn chwilio am swyddi a safon well o fyw. Roedd y Cyngh Ellen ap Gwynn yn chwilio am fwy o gefnogaeth i gymunedau gwledig.
- 3.6 Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn hollol ymwybodol o'r sefyllfa mewn ardaloedd gwledig a'i fod yn ystyried y mater. Aeth ymlaen i ddweud ei fod am ymbellhau o'r rhethreg a'i bod yn bwysig iawn cydnabod anghenion gwahanol ardaloedd gwahanol yng Nghymru a'r angen i fynd i'r afael â'r materion hyn mewn ffordd wahanol. Dywedodd fod ystadegau'n dangos problemau dwfn iawn iawn yn y cymoedd a bod tlodi yn yr ardaloedd hyn ar raddfa ryngwladol ac, felly, yn unigryw, a dyna pam mae angen mynd i'r afael â'r pethau hyn.
- 3.7 Roedd y Cyngh Huw Thomas o'r farn bod rôl y dinasoedd yn y gwaith o gyfrannu at economi'r cymoedd ar goll yng nghynllun cyflawni'r cymoedd. Nododd fod llawer o bobl o'r cymoedd yn teithio i Gaerdydd i weithio, ac y byddai'r swyddi sy'n cael eu creu yn y dinasoedd yn cyfrannu'n sylweddol at y targed o helpu 7,000 o bobl ddi-waith neu economaidd anweithgar sy'n byw yn y cymoedd i gael gwaith.
- 3.8 Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet â'r Cyngh Thomas, ac esboniodd fod angen gwneud mwy o bosibl. Aeth ymlaen i esbonio ei bod yn hollbwysig cael economi ranbarthol a oedd yn cynnwys y dinasoedd; a sicrhau bod cynigion yn berthnasol i bobl yn yr ardal. Roedd angen meddwl am ffyrdd o sicrhau bod hyn yn llwyddiannus, yn enwedig yng ngogledd y cymoedd, a hefyd ail-greu'r cysylltiad rhwng y cymoedd a'r dinasoedd. Roedd angen i Lywodraeth Cymru lywio'r polisi ac ystyried dwyn pŵer ac arbenigedd y bobl ynghyd.
- 3.9 Awgrymodd Alun Michael fod cysylltiadau cryf â'r flaenoriaeth i fynd i'r afael â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a'r prosiectau roedd yr heddlu yn ymwneud â nhw. Gofynnodd pa mor gryf oedd y cysylltiadau rhwng Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Tasglu. Pwysleisiodd fod angen mynd i'r afael â materion cymdeithasol yn ogystal â swyddi. Mewn ymateb, esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet mai hwn oedd yr ethos y tu ôl i Barc Tirwedd y Cymoedd.

- 3.10 Roedd y Cyngh Mike Cuddy o'r farn y gallai cynghorau cymuned a thref chwarae rôl fawr yn y fenter hon. Cytunodd Maureen Howell fod angen cydweithio'n well â'r Tasglu gan fod gan gynghorau cymuned a thref lawer i'w gynnis o ran deall eu cymunedau a hwyluso gwaith ymgysylltu.
- 3.11 Cafwyd trafodaeth bellach ar y farn wael am y cymoedd sy'n cael ei phortreadu'n aml gan y cyfryngau, ac roedd aelodau'r Cyngor Partneriaeth o'r farn bod angen tynnu sylw at yr hyn sy'n gadarnhaol; a'i fod o fewn gallu'r Tasglu i herio hyn. Cytunodd Maureen, ac esboniodd fod cwmni Cysylltiadau Cyhoeddus eisoes wedi'i gynnwys yn y broses o fynd i'r afael â'r mater penodol hwn.

4. Safbwynt y Trydydd Sector

- 4.1 Cyflwynodd Peter Davies yr eitem ar yr agenda drwy roi crynodeb bras o'r papur a gafodd ei gyflwyno i'r grŵp gan CGGC. Cyfeiriodd at natur amrywiol y trydydd sector, ei rôl mewn economïau lleol, a rôl sefydliadau angori cymunedau. Tynnodd sylw hefyd at newidiadau annisgwyl ac anesboniadwy i'r ffordd y mae'r Cod Ymarfer Ariannu yn cael ei gymhwyso ac i gynrychiolaeth y trydydd sector ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan nodi'r anawsterau y mae hyn yn eu creu i'r sector. Fodd bynnag, aeth ymlaen i bwysleisio bod y materion hyn yn gydgyfrifoldeb a bod gan y trydydd sector rôl yn y gwaith o'u datrys (yn enwedig materion yn ymwneud â llywodraethu, atebolrwydd a dangos gwerth ychwanegol) os ydym am greu cydberthnasau strategol sy'n datblygu'r trydydd sector hyd eithaf ei botensial yn lleol. Nododd hefyd y byddai'n croesawu adolygiad strategol i gadarnhau ble rydym arni o ran y gydberthynas rhwng y trydydd sector a llywodraeth leol a sut y gallant ymgysylltu â'i gilydd yn fwy effeithiol.
- 4.2 Nododd Amelia John fod enghreifftiau o arfer da, ond nad yw rhai meysydd yn gweithio'n dda. Fel enghraifft, dywedodd y gall prosesau comisiynu a chontractio roi sefydliadau llai yn y trydydd sector dan anfantais weithiau. Aeth ymlaen i dynnu sylw at rywfaint o waith da sy'n cael ei wneud ar draws sectorau i ddatblygu compactau ystyrion ar y cyd rhwng llywodraeth leol a'r trydydd sector, yn ogystal â gwaith ar drosglwyddo asedau cymuned lle mae pob sector yn cydweithio i weld sut y gallwn greu atebion cynaliadwy yn lleol. Dywedodd fod cynnwys llywodraeth leol yn y prosesau hyn yn barhaus yn rhywbeth hanfodol ac i'w groesawu'n fawr.
- 4.3 Mewn ymateb i bapur CGGC, dywedodd y Cyngh Debbie Wilcox fod awydd i wneud ymdrech dda ar y cyd a bod enghreifftiau o wneud hyn yn bodoli, a bod CGGC a llywodraeth leol am adeiladu ar arfer da a'i rannu ar draws sectorau. Nododd y Cyngh Wilcox hefyd fod CLILC am i drafodaethau â'r trydydd sector ddigwydd yn gynharach ac yn amserol ond, yn aml, gall problemau cyllidebu ac amserlenni fod yn rhwystr i'r dymuniad hwn, ac mae'n rhaid deall bod amgylchedd y sector cyhoeddus yn un cymhleth a bod y trydydd sector yn un o sawl partner posibl sy'n ceisio sicrhau gwerth am arian.
- 4.4 Nododd y Cyngh Mike Cuddy fod diffyg strwythur cyffredin rhwng cynghorau cymuned a thref a'r trydydd sector, a bod angen trafod sut maent yn cynnal gweithgareddau yn lleol er mwyn sicrhau'r budd pennaf. Cytunodd Peter Davies.

4.5 Bydd CLILC yn trefnu ymateb i bapur CGGC a fydd yn llywio trafodaethau pellach; bydd Peter Davies yn cael trafodaethau pellach ar y materion sydd wedi cael eu dwyn i sylw Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus pan fyddant yn cyfarfod ar 28 Chwefror; bydd CGGC ac Un Llais Cymru yn cyfarfod i drafod strwythur cyffredin.

5. Unrhyw Fater Arall

- 5.1 Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet i'r holl aelodau am eu cyfraniadau, a gofynnodd a oedd gan unrhyw un unrhyw fater arall i'w godi.
- 5.2 Mewn ymateb i gais pellach gan y Cyngh Debbie Wilcox am y newyddion diweddaraf ynglŷn â chael pás i fynd i mewn i adeilad y Cynulliad, esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn cydymdeimlo, ond gan mai adeilad Comisiwn y Cynulliad oedd hwn, cyfrifoldeb y Comisiwn oedd ymdrin â hyn; roedd y mater wedi cael ei ddwyn i'w sylw.
- 5.3 Yn olaf, rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet wybod i'r aelodau y bydd cyfarfod nesaf Cyngor Partneriaeth Cymru yn cael ei gynnal **ddydd Iau, 10 Mai 2018**.